



## POLISI YR IAITH GYMRAEG Cylch Meithrin Y Felinheli

Bydd **Cylch Meithrin Y Felinheli** yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn drwy y wybodaeth sydd i'w gael yn y llyfryn rhieni, copi o'r polisi ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan neu drwy ei ddarllen yn y ffeil bolisiau sydd yn cael ei gadw yn y Caban.

### **NOD**

Nod y cylch yw cynnig i bob plentyn cyn-ysgol yn ei ddalgylch y cyfle i gael profiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng yn yr iaith Gymraeg.

### **EGWYDDOR**

Cred y cylch bod yr iaith Gymraeg o fantais i blant, ac o'r herwydd trefnir cymaint o oriau cyswllt a'r iaith Gymraeg a phosibl a defnyddio'r iaith Gymraeg yn unig yn ei ddarpariaethau.

### **COD YMARFER**

#### **Bydd y cylch yn:**

- sicrhau bod yr holl weithgareddau ar gyfer y plant yn cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg ac y defnyddir y fethodoleg dull trochi i hwyluso caffaeliad iaith Gymraeg y plant (gweler tud 85 y Canllawiau Rheoli).
- Ymrwymo i weithredu holl elfennau Cod Ymarfer Polisi yr Iaith Gymraeg
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob gweithgaredd sydd yn gyselliedig ar cylch ond bydd yn sicrhau na fydd unrhyw riant yn cael ei adael allan o unrhyw weithgaredd ar sail ei gefndir ieithasol
- sicrhau bod hysbysebion am swyddi yn esbonio ymrwymiad y cylch i'r iaith Gymraeg.
- Sicrhau bod gan pob aelod o staff a benodir rhuglder digonol yn y Gymraeg i ymgymryd a holl dyletswyssau'r swydd. Bydd yn ofynnol i unrhyw aelod newydd o staff sydd angen gloywi ei h/iaith ymgymryd a chwrs Cymraeg perthnasol e.e Cwrs Iaith Sylfaenol y cylch Meithrin (gweler tud 87 y Canllawiau Rheoli). Bydd y pwyllgor yn sicrhau bod pob person a benodir i swydd yn y cylch yn ymwybodol o Bolisi yr Iaith Gymraeg, yn ei ddeall ac yn ymrwymo iddo.
- Cynnig cefnogaeth briodol i rhieni di-Gymraeg, er mwyn eu galluogi i gymeryd rhan iawn yn addysg Gymraeg eu plant. Bydd sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gael i ymestyn iaith Gymraeg y plant.
- Sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig sy'n cael ei gynhyrchu yn enw'r cylch yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

**Mae derbyn a gweithredu Polisi yr Iaith Gymraeg hwn yn amod o fod yn aelod gyda Mudiad Meithrin. Ni chaniateir newid unrhyw elfen o'r polisi hwn. Os yw cylch yn profi anhawster gyda chynnal safon y Gymraeg o fewn gweithgareddau'r cylch, dylid cysylltu a Chyfarwyddwyr Iaith Mudiad Meithrin am gyngor a chefnogaeth bellach.**